# Cyngor Cymuned Llandderfel

Cyfarfu'r Cyngor Nos Fawrth, Mehefin 30ain yn Neuadd Bro Derfel. Yn bresennol oedd Gwenda Evans, (cadeiryddes), Alwyn Jones, Eilir Rowlands, Bethan Thomas, Dewi Pritchard, Gwenda Morris, Gary Thomas, Gwynedd Jones, Eifion Davies, Maldwyn Jones, Iolo Evans, Rita Jones, Cyng. Elwyn Edwards a'r clerc

**i) Darllenwyd cofnodion cyfarfod Mehefin 2il a chafwyd yn gywir.**

**ii) Datgan Buddiant.**
Ni chofnodwyd unrhyw fuddiant.

**iii) Materion yn codi o'r cyfarfod diwethaf.**

a) Ymateb i'r cwynion a dderbyniwyd yn y cyfarfod diwethaf:-
i) Roedd yr Arolygwr Priffyrdd wedi asesu'r B4402 o Landderfel i Fethel ac am barhau i'w fonitro am rwan.
ii) Roedd y darn o'r B4401 ger Boderyl, Llandderfel wedi cael ei roi ar y raglen ailwynebu yn y flwyddyn ariannol yma.
iii) Roedd ein ymholiad ynglŷn â'r ffordd newydd a oedd wedi cael ei greu yn Ciltalgarth wedi cael ei anfon ymlaen i'r Uned Gwaith Stryd yng Nghaernarfon.
iv) Roedd y cwynion am gyflwr yr B4501 yng Nghwmtirmynach wedi cael ei anfon i'r Uned Draffig yng Nghaernarfon.

b) Cronfa Cefnogi Cynghorau Dinas, Tref a Chymuned 2026.
Adroddodd y clerc fod y Cyngor wedi bod yn llwyddianus gyda'i cais a chytunwyd y gallai Oswyn Roberts gychwyn ar y gwaith o darmacio ffordd y fynwent yn Llandderfel cyn gynted â phosib. Awdurdodwyd y clerc i dalu ei anfoneb pan fydd y gwaith wedi cael ei gwblhau a hawlio'r arian yn nôl o'r gronfa.

c) Lloches bws newydd i Lanfor.
Roedd Ymgynghoriaeth Gwynedd wedi anfon y cynllun newydd ar gyfer y lloches bws ond roedd dal ansicrwydd os y byddant yn gallu ariannu'r prosiect, felly gofynnwyd i'r clerc edrych am gronfeydd ariannol arall.

Problemau parcio pentref Llandderfel.
Roedd Adran Traffig Cyngor Gwynedd wedi anfon cynlluniau drafft ar gyfer gosod llinellau melyn ar ran o Stryd yr Eglwys yn Llandderfel. Bydd y cynlluniau yma wedyn yn rhan o'r ymgynghoriad cyhoeddus a bydd cyfle i'r trigolion lleol gyflwyno unrhyw sylwadau.

**iv) Gohebiaeth.**

Derbyniwyd yr ohebiaeth ganlynol:-

a) Cyngor Gwynedd.
i) Arolwg o Drefniadau Etholiadol Cymunedol.

b) Un Llais Cymru.
i) Nodyn Datblygu Ymarfer 28: Archwiliad Mewnol.
ii) Modiwlau hyfforddi digidol newydd. Cytunodd y clerc i fynychu un o'r sesiynnau hyfforddi a rhannu'r gost gyda Chyngor Llanycil.

c) Amrywiol.
i) Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru - archwilio agweddau a chanfyddiadau Cynghorwyr Tref a Chymuned gan ystyried yn benodol eu barn ar faint a strwythur cynghorau o'r fath a sut maent yn amrywio yn ôl amgylchiadau lleol. Gofynnwyd i'r clerc gwbwlhau'r holiadur.
ii) Parc Cenedlaethol Eryri - Cais am Adborth: Proffiliau Aneddiadau Drafft. Trafodwyd ei gynnwys a awgrymwyd fan newidiadau.



Arwyddwyd: ……………………………………………. Dyddiad: ……………………………………..

v) Ceisiadau Cynllunio
i) C25/0273/04/LL - Codi 8 o gytiau bugail, gosod cynhwysydd dŵr budr a suddfan dŵr a seilwaith i wasanaethu'r cytiau bugail. Pale Hall Hotel, Llandderfel.

Fel gyda'r cais blaenorol, cytunwyd i'w wrthwynebu gan y byddai'r cynllun yn or-ddatblygiad o'r safle yn enwedig gan ei fod gerllaw i adeilad rhestredig unigryw.

vi) Materion Ariannol
a) Adroddiad Ariannol (monitro derbyniadau a thaliadau).
Cyflwynodd y clerc yr adroddiad ariannol i ddiwedd Fehefin a chafwyd yn gywir.

b) Archwiliad Mewnol a'r Ffurflen Flynyddol.
Roedd Cyngor Gwynedd wedi archwilio'r cyfrifon a chafwyd cadarnhad i sicrwydd yn nhrefniadau llywodraethu a datganiadau cyfrifyddu'r cyngor. Cytunwyd yn unol â gofynion y datganiadau Cyfrifyddu a Llywodraethu yn y ffurflen Archwiliad Blynyddol. Adroddodd y Clerc y byddai'n anfon yr holl ddogfennau roedd Swyddfa Archwilio Cymru eu hangen ar gyfer yr archwiliad llawn allannol yn ddiweddarach yn y mis. Cytunwyd i arddangos yr hysbysiad archwilio yn y mannau perthnasol.

b) Taliadau.
Cytunwyd i dalu –
i) Cyflog a Chostau'r Clerc (Ebr-Meh)
ii) TWE
iii) Sion Jones (gwaith y mynwentydd)

**vii) Materion lleol.**
a) Gofynnwyd i'r clerc basio'r cwyn canlynol ymlaen i'r adrannau perthnasol:-
i) Coed y Mynydd Du ger Derwgoed, yn tyfu drosodd i'r ffordd.
ii) Pentref Glanrafon – cais am arwyddion yn nodi fod plant yn chwarae ar y ddau lecyn glaswellt o flaen y tai i annog perchnogion cwn i glirio ar eu holau.

# Cynhelir y Cyfarfod nesaf ar Nos Fawrth, Medi 1af am 7.30 y.h. yn Neuadd Sarnau.


Arwyddwyd: ………………………………………….          Dyddiad: …………………………………..